PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

Canllaw ar Drefniadau'r Tribiwnlys

Apelio yn erbyn Penderfyniad Pwyllgor Safonau

Trefniadau ar gyfer Apeliadau yn erbyn Penderfyniad gan Bwyllgor Safonau Awdurdod Lleol

(Dim ond canllaw i'r trefniadau a fydd ar waith yw hwn ac, ar yr amod ei fod yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol, gall Llywydd y Panel Dyfarnu a/neu Gadeirydd y tribiwnlys apêl perthnasol ei amrywio yn ôl eu disgresiwn).

Cyflwyniad

1. Mae Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel Dyfarnu") yn gorff annibynnol a gafodd ei sefydlu o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"). Un o swyddogaethau'r Panel Dyfarnu yw ffurfio tribiwnlysoedd er mwyn ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol ynglŷn â methiant aelod i gydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod.

2. Mae darpariaethau statudol yn ymwneud ag ymchwiliadau gan swyddogion monitro a phwyllgorau safonau i achosion honedig o dorri cod ymddygiad llywodraeth leol a'u penderfyniadau ynglŷn â'r achosion hynny, wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (OS 2001 Rhif 2281) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) 2016 (OS 2016 Rhif.85 W.39) ("y Rheoliadau"). Os bydd Pwyllgor Safonau, o dan baragraff 9(1) o'r Rheoliadau, yn canfod bod aelod o awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad, gall yr aelod hwnnw apelio yn erbyn y dyfarniad i Banel Dyfarnu Cymru. O dan baragraff 8(6) o'r Rheoliadau, ni fydd unrhyw waharddiad gan bwyllgor safonau yn dechrau hyd nes y bydd yr apêl yn cael ei phenderfynu.

3. O dan baragraff 12 o'r Rheoliadau, os bydd tribiwnlys apeliadau yn cadarnhau penderfyniad pwyllgor safonau bod y cod ymddygiad wedi cael ei dorri, gall naill ai gymeradwyo'r gosb a gafodd ei gosod neu gall gyfeirio'r mater yn ôl i'r pwyllgor gan argymell y dylai roi cosb wahanol.

Gweithredu Cyn y Gwrandawiad

4. Rhaid i apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau gael ei gwneud, drwy hysbysiad ysgrifenedig, o fewn 21 diwrnod i gael gwybod am benderfyniad y pwyllgor safonau. Rhaid i'r hysbysiad apêl gynnwys y canlynol:

   - y rhesymau dros apelio

- p'un a yw'r person sy'n rhoi'r hysbysiad apêl yn fodlon i'r apêl gael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig.

Mae ffurflen at y diben hwn ar gael ar wefan y Panel Dyfarnu (https://paneldyfarnu.llyw.cymru) neu gallwch gysylltu â'r Panel Dyfarnu gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar ddiwedd y canllaw hwn. Os na fyddwch yn defnyddio'r ffurflen neu'n darparu'r holl wybodaeth y mae'r ffurflen yn gofyn amdani, efallai y bydd oedi cyn prosesu eich apêl.

5. O 1 Mai 2016 ymlaen, bydd yn rhaid i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru roi caniatâd i'r apêl gael ei chlywed gan dribiwnlys. Rhaid gwneud penderfyniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn yr Hysbysiad ynghylch rhoi caniatâd ai peidio. Y prawf cyfreithiol yw a oes gan yr apêl obaith rhesymol o lwyddo ai peidio. Mae'r Llywydd yn debygol o ofyn am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad, er enghraifft, adroddiad y swyddog monitro a phenderfyniad y pwyllgor safonau. Os gofynnir am ragor o wybodaeth, rhaid ei darparu o fewn 14 diwrnod i'r cais. Bydd gan y Llywydd 14 diwrnod arall ar ôl i'r Cofrestrydd dderbyn y wybodaeth i benderfynu a yw am ganiatáu'r apêl ai peidio.

6. Os bydd y Cofrestrydd yn penderfynu nad oes gobaith rhesymol o lwyddo, rhoddir rhesymau ond ni fydd yr apêl yn mynd yn ei blaen. Bydd Cofrestrydd y Panel Dyfarnu yn cydnabod ei fod wedi derbyn yr apêl ac yn nodi'r manylion yn y gofrestr a gedwir i'r diben hwnnw.

7. Os bydd yn rhoi caniatâd, bydd Cofrestrydd y Panel Dyfarnu yn cydnabod ei fod wedi derbyn yr apêl ac yn nodi'r manylion yn y gofrestr a gedwir i'r diben hwnnw. Bydd y gydnabyddiaeth yn nodi cyfnod rhestru o 4 wythnos y bwriedir cynnal y gwrandawiad ynddo, os bydd un. Ar ddisgresiwn Llywydd y Panel Dyfarnu, efallai y caniateir rhagor o amser i'r apelydd ddarparu unrhyw esboniad sydd ei angen ar y Panel Dyfarnu am sail yr apêl os na nodwyd hynny'n glir ar y cychwyn.

8. Er mwyn ystyried yr apêl, efallai y bydd angen i'r tribiwnlys apêl gael gwybodaeth ychwanegol heblaw am y wybodaeth sydd wedi'i nodi ym mharagraff 4 uchod. Os nad yw'r apelydd wedi rhoi'r holl wybodaeth y mae'r ffurflen yn gofyn amdani, bydd gofyn iddo ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y Panel Dyfarnu o fewn 14 diwrnod.

Sylwadau Ysgrifenedig

9. Fel arfer, bydd tribiwnlys apêl yn cael ei gynnal drwy wrandawiad llafar, oni bai bod pawb sydd wedi rhoi hysbysiad apêl yn fodlon i'r tribiwnlys gael ei gynnal drwy sylwadau ysgrifenedig. Os nad yw apelydd am fynd i'r gwrandawiad na chael ei gynrychioli yn y gwrandawiad, gall gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys eu hystyried cyn iddo wneud penderfyniad ynglŷn â'r apêl. O dan yr amgylchiadau hyn, ar ôl iddo ystyried papurau'r achos am y tro cyntaf, bydd y tribiwnlys yn anfon rhestr o'r ffeithiau y bydd yn eu hystyried wrth wneud ei benderfyniad at yr aelod dan sylw. Bydd modd i'r aelod gyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig eraill sydd ganddo ar ôl gweld y ffeithiau hyn cyn i'r tribiwnlys gyfarfod.

Cyfarwyddiadau i Baratoi ar gyfer Gwrandawiad

10. Ar unrhyw adeg, gall y tribiwnlys, ar gais yr apelydd neu yn ôl ei ddymuniad ei hun, roi cyfarwyddiadau i alluogi'r apelydd i baratoi ar gyfer y gwrandawiad neu helpu'r

tribiwnlys i benderfynu'r materion. Dylai unrhyw gais am gyfarwyddiadau gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Cofrestrydd.

11. Gall y tribiwnlys roi cyfarwyddiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw fanylion sy'n rhesymol er mwyn penderfynu'r apêl. Gall y tribiwnlys hefyd roi cyfarwyddiadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw ddogfen neu ddeunydd arall sydd eu hangen ar y tribiwnlys ac y gall person hwnnw eu cyflwyno.

Amrywio neu Wrthod Cyfarwyddiadau

12. Os cafodd cyfarwyddyd (gan gynnwys unrhyw wysion) ei roi i berson ond na chafodd y person hwnnw gyfle i'w wrthwynebu, gall wneud cais i'r tribiwnlys amrywio neu wrthod y cyfarwyddyd. Ni fydd y tribiwnlys yn gwneud hynny heb iddo, yn gyntaf, hysbysu'r person a wnaeth gais am y cyfarwyddyd ac ystyried unrhyw sylwadau y bydd yn eu gwneud.

Galw/Gwysio Tystion

13. Gall y tribiwnlys ofyn i unrhyw berson fynychu'r gwrandawiad fel tyst ac ateb unrhyw gwestiynau neu ddarparu unrhyw ddogfennau neu ddeunydd arall sydd yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth sy'n ymwneud â phwnc yr apêl.

14. Oni bai bod person yn derbyn cyfnod llai o rybudd, bydd unrhyw un sy'n gorfod mynychu gwrandawiad mewn ymateb i wŷs yn cael o leiaf 14 diwrnod o rybudd ynglŷn â'r gwrandawiad.

15. Ni fydd angen i unrhyw un arall, heblaw am yr apelydd, fynychu gwrandawiad na darparu unrhyw ddogfen mewn ymateb i wŷs, oni bai bod ei dreuliau presenoldeb angenrheidiol yn cael eu talu. Mae treuliau'r tystion hynny sy'n mynychu gwrandawiad heb wŷs yn cael eu talu hefyd.

Presenoldeb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

16. Gall yr Ombwdsmon fynychu gwrandawiad, neu gall tribiwnlys ofyn (ond nid gorchymyn) i'r Ombwdsmon fynychu gwrandawiad er mwyn:

    - Cyflwyno adroddiad yr Ombwdsmon a/neu egluro unrhyw faterion ynddo;
    - Chwarae unrhyw ran arall neu gynorthwyo'r tribiwnlys yn y gwrandawiad fel sy'n briodol ym marn y tribiwnlys.

17. Nid oes yn rhaid i'r Ombwdsmon fynychu gwrandawiad ei hun - gall ddirprwyo aelod neu aelodau o'i staff i fynd ar ei ran gan ddefnyddio pwerau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Gall yr Ombwdsmon gael ei gynrychioli mewn gwrandawiad gan fargyfreithiwr neu gyfreithiwr hefyd.

18. Ni ddylai cais gan dribiwnlys i'r Ombwdsmon fynychu gwrandawiad gael ei wrthod yn afresymol ac os bydd hynny'n digwydd, rhaid i'r Ombwdsmon roi rhesymau ysgrifenedig.

Rôl yr Ombwdsmon mewn Gwrandawiad

19. Y tribiwnlys sy'n penderfynu ar rôl yr Ombwdsmon mewn gwrandawiad yn seiliedig ar amgylchiadau'r achos dan sylw. Gall hyn gynnwys:

- Gwneud cyflwyniadau a darparu tystiolaeth i ategu canfyddiadau'r adroddiad;
- Ymateb i gyflwyniadau neu dystiolaeth a gafodd eu darparu gan yr apelydd neu'i gynrychiolydd wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad neu yn ystod y gwrandawiad;
- Holi'r rhai fydd yn ymddangos gerbron y tribiwnlys yn ystod y gwrandawiad h.y. yr apelydd neu unrhyw dystion;
- Pan fydd tribiwnlys yn canfod bod achos o dorri'r cod ymddygiad wedi digwydd, tynnu sylw'r tribiwnlys at unrhyw ffactorau y dylai eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb, fel unrhyw gamweithredu blaenorol neu ffactorau gwaethygol eraill.

Presenoldeb a Rôl y Swyddog Monitro

20. Gall y Panel Dyfarnu gael apêl yn dilyn ymchwiliad gan yr Ombwdsmon neu swyddog monitro'r awdurdod perthnasol. Os mai'r swyddog monitro a gynhaliodd yr ymchwiliad, bydd y swyddog monitro yn chwarae'r rôl a ddisgrifir uchod.

21. Os mai'r Ombwdsmon a gynhaliodd yr ymchwiliad, mae hawl gan swyddog monitro (neu gynrychiolydd) yr awdurdod perthnasol i fynychu gwrandawiad y tribiwnlys beth bynnag, p'un a fydd y gwrandawiad yn breifat ai peidio. Yn ymarferol, y bwriad yw y bydd y tribiwnlys yn gofyn i'r swyddog monitro fod yn bresennol ac yn rhoi cyfleoedd iddo ddarparu unrhyw eglurhad neu wybodaeth berthnasol er mwyn cynorthwyo'r tribiwnlys.

Arbenigwyr

22. Os bydd y tribiwnlys yn teimlo yr hoffai gael cymorth arbenigwr ar gyfer cwestiwn penodol, gall wneud trefniadau i berson â chymwysterau addas ymchwilio i'r mater a llunio adroddiad arno ac, os oes angen, fynychu'r gwrandawiad a rhoi tystiolaeth.

23. Bydd pob apelydd yn cael copi o adroddiad yr arbenigwr cyn y gwrandawiad neu unrhyw wrandawiad sy'n ailgychwyn.

Adolygiad Cyn-gwrandawiad

24. Os bydd yn ymddangos i'r tribiwnlys y byddai cynnal adolygiad cyn-gwrandawiad yn ddefnyddiol i'r apêl, gall roi cyfarwyddiadau, ar gais yr apelydd neu yn ôl ei ddymuniad ei hun, i gynnal adolygiad o'r fath. Bydd y Cofrestrydd yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i bob apelydd ynglŷn ag amser a lleoliad yr adolygiad.

25. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn breifat oni bai bod y tribiwnlys yn gorchymyn fel arall, a gall unrhyw apelydd ymddangos a chael ei gynrychioli gan berson arall.

26. Yn ystod adolygiad:

    a. bydd y tribiwnlys, neu'r Cofrestrydd, yn rhoi'r holl gyfarwyddiadau sydd eu hangen neu sy'n ddymunol i sicrhau bod yr apêl yn cael ei gweinyddu mewn ffordd gyfiawn, gyflym a darbodus;

    b. bydd y tribiwnlys, neu'r Cofrestrydd, yn ceisio sicrhau bod unrhyw berson sydd wedi'i gyhuddo yn gwneud yr holl addefiadau a chytundebau a ddylai gael eu gwneud mewn perthynas â'r apêl;

    c. gall y tribiwnlys, os bydd pob person sydd wedi'i gyhuddo yn cytuno, benderfynu'r apêl ar sail y dogfennau a'r datganiadau sydd ger ei fron bryd hynny, heb gynnal gwrandawiad arall.

    Bydd unrhyw gyfarwyddiadau y bydd y Cofrestrydd yn eu rhoi o dan a. a b. uchod yn cyd-fynd â chyfarwyddiadau'r tribiwnlys a gall y tribiwnlys eu gwrthod neu'u hamrywio yn ôl ei ddymuniad ei hun neu ar gais apelydd.

Hysbysiad o Leoliad ac Amser Gwrandawiad Tribiwnlys

27. Bydd y Cofrestrydd yn pennu dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad a bydd yn hysbysu'r apelydd am drefniadau'r gwrandawiad o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad hwnnw. Fel arfer, mae'r Panel Dyfarnu yn cynnal gwrandawiadau'r tribiwnlys yn ardal yr awdurdod y mae'r person sydd wedi'i gyhuddo yn aelod ohono os yw hynny'n bosibl. Diben hyn yw ei gwneud hi'n haws i aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb a all fod am arsylwi'r achos fod yn bresennol.

28. Ynghyd â'r hysbysiad ynglŷn â'r gwrandawiad, bydd y manylion canlynol yn cael eu darparu:

    a. gwybodaeth a chanllawiau ynglŷn â phresenoldeb tystion yn y gwrandawiad, cyflwyno dogfennau a'r hawl i gael eich cynrychioli gan berson arall;

    b. datganiad yn egluro'r canlyniadau posibl o beidio â mynychu'r gwrandawiad a'r hawl sydd gan bob apelydd sydd wedi ymateb ond sy'n penderfynu peidio â mynychu na chael ei gynrychioli, i wneud sylwadau ysgrifenedig.

29. Gall y tribiwnlys ohirio gwrandawiad a bydd y Cofrestrydd yn rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd i'r apelydd ynglŷn â hynny.

30. O bryd i'w gilydd, gall y tribiwnlys ohirio gwrandawiad ar ôl iddo gychwyn ac os bydd yn cyhoeddi pryd a ble y bydd y gwrandawiad yn ailddechrau cyn iddo ei ohirio, ni fydd angen rhoi rhagor o rybudd.

Hysbysiad Cyhoeddus o Wrandawiadau

31. Bydd rhestr o'r holl wrandawiadau, gan gynnwys y dyddiad, yr amser a'r lleoliad, ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn swyddfeydd Uned Gymorth y Panel Dyfarnu, drwy drefniant â'r Cofrestrydd. Bydd y manylion i'w gweld ar wefan y Panel Dyfarnu hefyd.

Penderfynu Apêl heb Wrandawiad

32. Os bydd pob apelydd yn rhoi caniatâd ysgrifenedig, gall y tribiwnlys benderfynu apêl, neu unrhyw fater penodol, heb wrandawiad.

33. Mae darpariaethau paragraffau 38 (sylwadau ysgrifenedig) a 46 (derbyn tystiolaeth) yn gymwys wrth benderfynu apêl neu unrhyw fater penodol, heb wrandawiad.

Gwrandawiadau Cyhoeddus

34. Bydd holl wrandawiadau tribiwnlys yn cael eu cynnal yn gyhoeddus oni bai bod y tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn amharu ar gyfiawnder neu'n peryglu diogelwch personol unrhyw barti sydd ynghlwm wrth achos.

35. Bydd angen i'r tribiwnlys gael tystiolaeth argyhoeddiadol o niwed sylweddol i'r unigolion sydd ynghlwm wrth y gwrandawiad neu i fudd y cyhoedd yn gyffredinol, cyn cynnal gwrandawiad yn breifat. Mewn llawer o achosion, efallai y gall y tribiwnlys ddyfeisio ffyrdd ymarferol o ddiogelu gwybodaeth sensitif neu bobl sy'n agored i

niwed drwy, er enghraifft, gymryd tystiolaeth gan dyst sy'n agored i niwed yn breifat neu roi cyfarwyddyd i ddefnyddio ffugenwau.

36. Bydd hawl gan y bobl ganlynol fynychu gwrandawiad p'un a yw'n breifat ai peidio:

    a. llywydd ac aelodau Panel Dyfarnu Cymru (p'un a ydynt yn rhan o'r tribiwnlys ar gyfer y gwrandawiad ai peidio);

    b. aelodau o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd;

    c. yr Ombwdsmon neu'i gynrychiolydd;

    d. swyddog monitro, neu'i gynrychiolydd, yr awdurdod y mae'r apelydd yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.

37. Gall y tribiwnlys adael i bobl eraill fynychu gwrandawiad sy'n cael ei gynnal yn breifat.

38. Gall y tribiwnlys wahardd o wrandawiad, neu unrhyw ran ohono, unrhyw berson y mae ei ymddygiad wedi amharu ar y gwrandawiad neu sy'n debygol, ym marn y tribiwnlys, o amharu ar y gwrandawiad.

Methiant Partïon i Fynychu Gwrandawiad

39. Os na fydd apelydd yn mynychu neu'n cael ei gynrychioli mewn gwrandawiad y mae wedi cael gwybod amdano, gall y tribiwnlys:

    a. penderfynu'r apêl yn absenoldeb y person hwnnw, oni bai ei fod yn fodlon bod rheswm da dros yr absenoldeb; neu

    b. gohirio'r gwrandawiad.

40. Cyn penderfynu y bydd yn gwneud dyfarniad ynglŷn ag apêl yn absenoldeb yr apelydd, bydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gafodd eu cyflwyno gan y person hwnnw wrth iddo wneud ei apêl neu mewn ymateb i'r hysbysiad gwrandawiad. At y diben hwn, bydd unrhyw ymateb yn cael ei drin fel sylw ysgrifenedig.

41. Os na fydd apelydd yn mynychu gwrandawiad, gall y tribiwnlys wneud gorchymyn ynglŷn â chostau a threuliau fel sy'n briodol yn ei farn ef.

Trefn y Gwrandawiad

42. Bydd tribiwnlys yn cynnwys o leiaf dri pherson o'r Panel Dyfarnu. Ar ddechrau'r gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn egluro'r drefn y mae'r tribiwnlys yn bwriadu ei dilyn. Mater i'r tribiwnlys fydd dewis pa drefn i'w dilyn a'r nod yw cynnal y gwrandawiad yn y ffordd fwyaf addas yn ei farn ef er mwyn egluro'r materion sydd gerbron a gweinyddu'r apêl mewn ffordd gyfiawn yn gyffredinol. Bydd y tribiwnlys yn ceisio osgoi ffurfioldeb yn ei drefniadau gymaint â phosibl. Caiff gwrandawiadau tribiwnlysoedd eu recordio yn ôl disgresiwn y tribiwnlys.

43. Gall y gwrandawiad gael ei gynnal yn Gymraeg neu Saesneg yn unol â chyfarwyddyd y tribiwnlys. Bydd y tribiwnlys, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, yn ystyried ac yn gweithredu yn unol ag unrhyw ddymuniadau a nodwyd gan apelydd. Ym mhob achos, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael os bydd unrhyw berson

sy'n mynychu gwrandawiad ac yn cymryd rhan ynddo yn gofyn amdano. Bydd y tribiwnlys yn ceisio cadarnhau iaith ddewisol pob cyfranogwr cyn y gwrandawiad.

44. Bydd hawl gan yr apelydd i roi tystiolaeth, galw ar dystion, holi unrhyw dystion ac annerch y tribiwnlys am y dystiolaeth a phwnc yr apêl yn gyffredinol.

45. Gall y tribiwnlys gyfyngu ar nifer y tystion y gall yr apelydd alw arnynt os yw'n teimlo y byddai hynny'n helpu i weinyddu'r gwrandawiad apêl mewn ffordd effeithlon a synhwyrol. Gall tribiwnlys gyflwyno cyfyngiadau o'r fath, er enghraifft, pan fydd yn ymddangos i'r tribiwnlys na fydd y tystion dan sylw yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth na ffeithiau newydd pwysig, neu pan fydd yr apelydd yn galw ar ormod o dystion i roi testimoni ynglŷn â'i gymeriad.

46. Ni all tystion eistedd yn yr oriel gyhoeddus cyn i'r tribiwnlys alw arnynt i roi tystiolaeth. Bydd man aros penodedig ar gael i'r tystion nes y byddant yn cael eu galw.

47. Gall tystiolaeth gerbron y tribiwnlys gael ei rhoi ar lafar neu, os bydd y tribiwnlys yn gorchymyn hynny, drwy affidafid neu ddatganiad ysgrifenedig. Ar unrhyw gam yn yr achos, gall y tribiwnlys orchymyn bod unrhyw berson sydd wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn mynychu'r gwrandawiad.

48. Gall y tribiwnlys gael unrhyw ffeithiau sy'n ymddangos yn berthnasol yn ei farn ef, hyd yn oed pe byddai'r dystiolaeth honno yn annerbyniol mewn achosion gerbron llysoedd cyfreithiol. Ni fydd y tribiwnlys yn gwrthod derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n dderbyniol yn gyfreithiol ac sy'n berthnasol.

49. Efallai y bydd gofyn i'r apelydd a thystion roi tystiolaeth ar lw neu ar gadarnhad. Gall tystion gael eu rhyddhau gyda chytundeb yr apelydd neu'i gynrychiolydd ar ôl iddynt roi tystiolaeth.

50. Gall gwrandawiad apêl gynnwys tri cham posibl yn dibynnu ar ba un a yw'r apelydd yn anghytuno â'r canlynol:

- unrhyw rai o'r ffeithiau a arweiniodd at ganfyddiad y pwyllgor safonau iddo dorri'r cod ymddygiad;
- bod y ffeithiau, ym marn y pwyllgor safonau, yn rhoi cyfiawnhad dros ddyfarnu iddo dorri'r cod ymddygiad;
- y gosb a gafodd ei chyflwyno gan y pwyllgor safonau ar ôl iddo dorri'r cod ymddygiad;
- dau neu ragor o'r uchod.

Yn dibynnu ar yr uchod, mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r drefn arferol i'w dilyn, ond gall y tribiwnlys wyro oddi wrth y drefn honno os yw'n ystyried bod hynny'n briodol. Er enghraifft, os nad yw apelydd yn anghytuno â'r ffaith ei fod wedi torri'r cod ymddygiad ond ei fod yn apelio yn erbyn y gosb a gafodd ei chyflwyno, mae camau 1 a 2 o'r drefn ganlynol yn amherthnasol.

Materion Rhagarweiniol

51. Ar ôl i'r Cadeirydd esbonio'r drefn, bydd y tribiwnlys yn ceisio datrys unrhyw broblemau â'r drefn neu anghydfodau sy'n codi ynglŷn ag unrhyw "Gyfarwyddyd Rhestru" a gafodd ei roi.

Cam 1 o'r Gwrandawiad - Canfod y Ffeithiau

52. Bydd y tribiwnlys wedyn yn ceisio datrys unrhyw anghydfodau ffeithiol sy'n weddill a gafodd eu nodi yn ystod y trefniadau cyn y gwrandawiad.

53. Os oes anghydfod ynglŷn â sawl mater, gall y tribiwnlys ystyried ei bod yn fwy cyfleus ystyried yr holl faterion hynny gyda'i gilydd yn hytrach na bod y gwrandawiad yn bwrw ymlaen fesul ffaith.

54. Gall y tribiwnlys benderfynu gohirio'r achos er mwyn ystyried y cyflwyniadau a'r dystiolaeth ac wedyn bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ynglŷn â'r ffeithiau.

Cam 2 o'r Gwrandawiad - Penderfyniad

55. Nesaf, bydd y tribiwnlys yn ceisio penderfynu a yw'r ffeithiau yn peri iddo ddod i'r casgliad bod yr apelydd wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, os nad yw wedi cyfaddef hynny.

56. Gall y tribiwnlys ddewis gohirio'r gwrandawiad ar y cam hwn er mwyn ystyried a fu methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol.

57. Os bydd y tribiwnlys yn canfod na fu methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad, rhaid iddo wrthdroi penderfyniad pwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol.

Cam 3 o'r Gwrandawiad - Camau i'w Cymryd

58. Os bydd y tribiwnlys yn canfod y bu methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i glerc y tribiwnlys a oes unrhyw wybodaeth ar gael am unrhyw gamweithredu blaenorol gan yr aelod dan sylw. Bydd yr Ombwdsmon neu'r swyddog monitro (fel y bo'n briodol) yn cael eu gwahodd i dynnu sylw tribiwnlys at unrhyw ffactorau perthnasol a ddylai gael eu hystyried. Bydd yr apelydd (neu'i gynrychiolydd) yn cael ei wahodd i wneud cyflwyniadau ar ba gamau y dylai'r tribiwnlys eu cymryd, gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniarol. Gall hyn ddigwydd yn ystod Cam 2 os nad yw'r tribiwnlys eisoes wedi cael ei ohirio er mwyn ystyried a fu methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad.

59. Wedyn bydd y tribiwnlys yn gohirio'r gwrandawiad er mwyn ystyried a yw methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol yn haeddu cerydd, neu a ddylai'r aelod gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol, cyn cyhoeddi ei benderfyniad. Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod cosb yn briodol, gall:

    a. cymeradwyo unrhyw gosb a gafodd ei chyflwyno gan bwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol; neu

b. cyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor safonau gan argymell y dylai osod cosb wahanol. Nid oes yn rhaid i'r pwyllgor dderbyn yr argymhelliad hwn.

60. Rhaid i argymhelliad gan dribiwnlys apeliadau gyd-fynd â'r cosbau y gall pwyllgor safonau eu gosod o dan baragraff 9(1) o'r Rheoliadau, hynny yw:

- nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r methiant;
- y dylai'r aelod gael cerydd; neu
- y dylai'r aelod gael ei wahardd neu'i wahardd yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol am gyfnod o hyd at chwe mis.

Penderfyniad y Tribiwnlys

61. Gall penderfyniad tribiwnlys gael ei wneud gan fwyafrif ac mae gan y Cadeirydd bleidlais fwrw os bydd angen. Bydd y cofnod o'r penderfyniad yn nodi p'un a oedd yn benderfyniad unfrydol neu'n benderfyniad gan fwyafrif.

62. Gall y penderfyniad gael ei roi ar lafar ar ddiwedd y gwrandawiad neu'i gadw'n ôl. Ym mhob achos, p'un a gafodd gwrandawiad ei gynnal ai peidio, bydd y penderfyniad yn cael ei gofnodi mewn dogfen sy'n cofnodi penderfyniad y tribiwnlys ac yn rhoi'r rhesymau dros ei benderfyniad. Bydd cadeirydd y tribiwnlys yn llofnodi'r ddogfen ac yn cofnodi'r dyddiad arni. Bydd pob dogfen yn cael ei chynnwys yn y gofrestr bwrpasol cyn gynted â phosibl.

63. Os bydd dogfen yn cyfeirio at dystiolaeth a gafodd ei chlywed yn breifat yn unig, dim ond crynodeb o'r ddogfen honno fydd yn cael ei gynnwys yn y gofrestr, gan hepgor unrhyw ddeunydd yn unol â chyfarwyddyd y tribiwnlys.

64. Bydd pwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol, y person sy'n destun yr hysbysiad a'r Ombwdsmon yn cael gwybod am benderfyniad y tribiwnlys. Bydd y tribiwnlys yn cymryd camau rhesymol hefyd i hysbysu unrhyw un honiad a arweiniodd at yr ymchwiliad.

65. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyhoeddi penderfyniad y tribiwnlys apêl ar ei wefan.

Camau i'w cymryd gan Bwyllgor Safonau ar ôl Tribiwnlys Apeliadau

66. O fewn 14 diwrnod i'r canlynol, pa un bynnag sydd hwyraf:

(a) hysbysiad o benderfyniad y tribiwnlys apêl i:

(i) cymeradwyo unrhyw gosb a gafodd ei gosod gan y pwyllgor safonau; neu

(ii) gwrthdroi penderfyniad y pwyllgor safonau; neu

(b) penderfyniad arall gan y pwyllgor safonau ar ôl argymhelliad gan y tribiwnlys apeliadau y dylai cosb wahanol gael ei gosod

67. Rhaid i'r pwyllgor safonau lunio adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad ac anfon copi at yr Ombwdsmon, swyddog monitro'r awdurdod perthnasol, unrhyw berson a fu'n destun yr ymchwiliad a'r person a wnaeth yr honiad gwreiddiol. Ar ôl gwneud penderfyniad arall fel sy'n cael ei ddisgrifio yn 64(b) uchod, rhaid i'r pwyllgor safonau hefyd hysbysu Llywydd y Panel Dyfarnu.

68. Ar ôl cael adroddiad y pwyllgor safonau, bydd swyddog monitro'r awdurdod perthnasol yn gwneud y canlynol:

a. cyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr awdurdod perthnasol am 21 diwrnod ac yn gwneud yn siŵr bod copïau ar gael i'r cyhoedd eu darllen, am ddim, ar adegau synhwyrol mewn un neu ragor o swyddfeydd yr awdurdod;

b. rhoi copi o'r adroddiad i unrhyw berson ar gais os bydd yn talu unrhyw dâl y mae'n rhesymol i'r awdurdod ei chodi;

c. cyhoeddi hysbysiad, o fewn saith niwrnod i gael adroddiad y pwyllgor safonau, mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cael eu gwerthu yn ardal yr awdurdod perthnasol i ddweud bod copïau o'r adroddiad ar gael fel y nodir ym mharagraffau a. a b. uchod.

Gorchmynion ar gyfer Costau a Threuliau

69. O dan baragraff 15(2) o'r Rheoliadau, ni fydd y tribiwnlys fel arfer yn gwneud gorchymyn yn dyfarnu costau neu dreuliau, ond gall wneud gorchymyn o'r fath yn erbyn person:

a. os yw o'r farn bod y person hwnnw wedi ymddwyn mewn ffordd wacsaw neu flinderus, neu'i fod wedi ymddwyn yn hollol afresymol wrth wneud apêl; neu

b. ar ôl i wrandawiad gael ei ohirio neu'i ohirio wedi iddo ddechrau.

70. Pan fydd y tribiwnlys yn penderfynu gwneud gorchymyn yn erbyn rhywun, bydd y person hwnnw yn cael cyfle i wneud sylwadau yn erbyn y gorchymyn hwnnw.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Cyfeiriad: Cofrestrydd y Panel
Panel Dyfarnu Cymru
Uned Tribiwnlys Cymru
PO BOX 100
Llandrindod
LD1 9BW

Ffôn: 03000 259805
E-bost: adjudication.panel@llyw.cymru
Gwefan: https://paneldyfarnu.llyw.cymru